## ADRODDIAD I'R CABINET

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 24 Hydref, 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd |
| **Awdur:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679685 |
| **Teitl yr Eitem:** | Cais y Fargen Twf ar gyfer Gogledd Cymru – Diweddariad Cynnydd |

### 1. CEFNDIR

1.1. Bu i'r Cabinet gefnogi'r "Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru" (***Atodiad 1***) ym mis Medi 2016. Mae'r weledigaeth yn adnabod blaenoriaethau clir ar gyfer datblygu trafnidiaeth ac isadeiledd, sgiliau a swyddi, a thwf ac arloesi busnes. Mabwysiadwyd y strategaeth gan y pum Cyngor arall yn y rhanbarth ynghyd â chyrff eraill (Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Sefydliadau Addysg Uwch ac Addysg Bellach) ar yr un pryd.

1.2. Yn dilyn hyn, mae Gogledd Cymru wedi cael gwahoddiad ffurfiol i ddatblygu'r strategaeth i fod yn gais ar gyfer y 'Fargen Twf' er mwyn sicrhau buddsoddiad ariannol a throsglwyddo pwerau i'r rhanbarth o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'r adroddiad yma yn diweddaru'r Cabinet ar gynnydd gyda datblygu'r cais ac amlinellu'r camau nesaf yn y broses.

### 2. PENDERFYNIADAU A GEISIR

a. Nodi a chefnogi cynnydd datblygiad cais y Fargen Twf ar gyfer y rhanbarth.

b. Cefnogi mewn egwyddor, y model llywodraethu a ffefrir o Gydbwyllgor Statudol ar gyfer datblygiad pellach gydag adroddiad llawn ar gyfansoddiad a chylch gorchwyl, wedi ei gefnogi gan Gytundeb Rhyng-Awdurdod, i ddilyn nes ymlaen yn y flwyddyn.

c. Yn y cyfamser, bod yr Arweinydd yn cael ei awdurdodi i fod yn aelod Gwynedd o'r Cydbwyllgor Cysgodol.

ch. Bod yr Arweinydd, fel un o Arweinwyr y chwe Chyngor a gynrychiolir ar y Cydbwyllgor Cysgodol, yn cael ei awdurdodi i ddechrau trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn â maint ac amlinelliad cynnwys cais y Fargen Twf, gan nodi na fydd unrhyw ymrwymiadau ariannol nac o fath arall yn cael eu cytuno yng nghamau cyntaf y trafodaethau.

d. Bod hawl yn cael ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr i sicrhau cyfraniad ariannol cychwynnol o hyd at £50,000 o wariant 2017/18 ar gyfer paratoi cais am arian o'r Cytundeb Twf.

**3. DATBLYGU CAIS Y FARGEN TWF**

3.1. Mabwysiadwyd Gweledigaeth Twf ar gyfer Economi Gogledd Cymru gan gyrff ar draws y rhanbarth yn 2016. Roedd y weledigaeth yn disgrifio Gogledd Cymru fel "*rhanbarth hyderus, unedig gyda thwf economaidd cynaliadwy, sy'n manteisio ar lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel ynghyd a'i gysylltiadau gydag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon*".

3.2. Mae'r ddogfen yn cynnwys rhaglen waith o gynlluniau posibl er mwyn cyflawni'r weledigaeth trwy fuddsoddi mewn trafnidiaeth ac isadeiledd, gwella sgiliau a swyddi, a chefnogi arloesi a thwf busnes.

3.3. Yn natganiad y Canghellor ar lawr y Senedd ym mis Tachwedd 2016, rhoddwyd gwahoddiad i Ogledd Cymru gyflwyno cais ar gyfer Cytundeb y Fargen Twf. Dyma'r cerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y Llywodraeth yn Llundain bellach i gefnogi buddsoddiad economaidd mewn rhanbarthau ar draws y wlad. Mae rhanbarth Caerdydd a rhanbarth Bae Abertawe eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth i'r Fargen Twf. Mae cytundeb Caerdydd werth £1.2bn a chytundeb Abertawe werth £1.3bn dros 15 mlynedd (sy'n cynnwys arian preifat).

3.4. Yn syml, mae dwy elfen i'r Fargen Twf:

- Buddsoddiad ariannol gan Lywodraeth Prydain (a Llywodraeth Cymru) mewn prosiectau sy'n arwain at dwf economaidd yn y rhanbarth;
- Datganoli grymoedd neu bwerau o'r Llywodraeth Ganolog i'r rhanbarthau er mwyn caniatáu i'r rhanbarthau wneud penderfyniadau ar lefel rhanbarth.

3.5. Mae'n rhaid i ranbarthau sy'n gwneud cais gael model llywodraethu cyfreithiol, gwydn ac atebol ar gyfer cynllunio a gweithredu eu strategaeth. Mae disgwyl i ranbarthau fod yn barod i fuddsoddi yn eu strategaethau ochr yn ochr â'r Llywodraeth(au) o ran dyraniadau cyfalaf, benthyciadau cyfalaf, defnydd o dir ac asedau, ac adnoddau datblygu prosiect a gwaith proffesiynol.

3.6. Bydd Llywodraethau Cymru a'r DU yn disgwyl i'r ceisiadau ddangos cydweithrediad agos gyda'r sector breifat a phartneriaid addysg uwch ac addysg bellach. Mae ceisiadau sy'n dangos cefnogaeth y sector breifat yn enwedig yn cael eu hannog gan y ddwy Lywodraeth. Mae Cyngor Busnes Gogledd Cymru wedi bod yn rhan annatod o ddatblygiad y cais y Fargen Twf yn y Gogledd.

3.7. Mae ceisiadau'r Fargen Twf yn cael eu datblygu mewn pedair rhan:

(i) gwahoddiad i wneud cais;
(ii) trafodaethau anffurfiol rhwng y Llywodraeth a'r ardal benodol ynglŷn â chyfeiriad a chynnwys y cais;
(iii) rhan gyntaf y cytundeb a elwir yn "benawdau telerau";
(iv) y cytundeb gorffenedig a chymeradwyo'r cais, ar y cyd rhwng yr awdurdodau a Llywodraethau Cymru a'r DU.

3.8. Mae cais Gogledd Cymru yng nghamau olaf yr ail ran gyda'r bwriad o gyrraedd cytundeb penawdau telerau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol (2017/18).

3.9. Gwelir manylion amlinellol y cais yn ***Atodiad 2***.

3.10. Defnyddir y Fargen Twf i gael mynediad at arian ar gyfer prosiectau allweddol na fyddent fel arall yn cael eu hariannu gan Lywodraethau e.e. gwaith paratoi i ddatblygu a datgloi safleoedd gwaith a thai strategol ar gyfer datblygiad ble mae'r farchnad yn amlwg wedi methu. Bydd hefyd yn ysgogi'r Llywodraeth(au) i ymrwymo i ddatblygiadau mawr sydd yn cael eu hystyried, ond sydd heb gael eu cadarnhau eto. Mae'r datblygiadau yma yn cynnwys buddsoddiadau megis isadeiledd rheilffyrdd, a chynlluniau priffyrdd sydd y tu hwnt i'r adnoddau sydd i'w datganoli i'r Fargen Twf.

3.11. Tynnir sylw mai arian cyfalaf fydd y buddsoddiad yma. Mae'n debyg ein bod yn edrych ar gyfanswm buddsoddiad o £240m (heb gynnwys cyfraniad Llywodraeth Leol a phartneriaid eraill yn cynnwys Addysg Uwch a'r sector breifat). Mae hefyd yn bosib cael mynediad at gronfeydd Cenedlaethol eraill megis Cronfeydd Menter a Sector Llywodraeth y DU trwy gais y Fargen Twf.

3.12. Fel rhan o'r Cais, bydd y rhanbarth yn gofyn am swyddogaethau a phwerau wedi'u datganoli gan y ddwy lywodraeth. Mae'r gwaith hwn ar y gweill ac yn faes trafod sensitif gyda'r ddwy lywodraeth. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys:

- Pwerau a swyddogaethau comisiynu a gweithredol ar gyfer trafnidiaeth;
- Rheoli cefnogaeth ranbarthol i'r sectorau busnes ar gyfer strategaeth marchnata, twf ac allforio;
- Cadw cyfran o'r twf yn y dreth annomestig genedlaethol (ardrethi busnes) i'w buddsoddi yn y strategaeth fel rhan o gyfraniad ariannol llywodraeth leol ar y cyd; a
- Rôl fel partner i'r Adran Gwaith a Phensiynau wrth reoli rhaglenni dychwelyd i'r gwaith.

3.13. Bydd yr argymhellion o ran gofynion datganoli yn cael eu rhannu gyda'r Cyngor a phartneriaid cyn cytuno ar y "penawdau telerau".

3.14. Hyd yn hyn mae'r gwaith o ddatblygu'r cais wedi cael ei wneud ar y cyd gan rwydwaith broffesiynol o swyddogion sy'n cefnogi Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'r Grŵp Rheoli Rhaglen. Mae'r ymgais hwn ar y cyd wedi cael ei gefnogi gan nifer fechan o swyddogion rhanbarthol cyflogedig. Bydd gofyn i'r partneriaid rhanbarthol fuddsoddi mewn Swyddfa Rhaglen i gefnogi'r gwaith.

3.15. Yn dilyn cytundeb penawdau telerau gyda'r Llywodraethau bydd y prosiectau oddi mewn i'r Cais yn gorfod cyrraedd safonau Cynllun Busnes pum-achos y Llywodraeth. Bydd rhaid cyrraedd y cam yma cyn diwedd blwyddyn galendr 2017, ac i gyrraedd hyn, nid oes gan y rhanbarth yr adnoddau pwrpasol, sy'n pwysleisio'r angen am adnoddau ychwanegol dros dro. Felly, mae yno argymhelliad fod cyfraniad ariannol blynyddol yn cael ei wneud gan bob partner rhanbarthol allweddol.

3.16. Bydd manylion llawn cais y Fargen Twf yn cael ei rannu gyda phob awdurdod, a phartneriaid eraill i'w gymeradwyo cyn i unrhyw gytundeb gael ei wneud gyda'r Llywodraeth. Mae'r Pwyllgor Craffu Economi ac Addysg eisoes wedi cael cyfarfod anffurfiol i drafod y Fargen Twf. Roeddynt yn awyddus i'r Cyngor chwarae rôl arweiniol a blaengar wirth ddatblygu'r cais. Mae'n bwysig amlygu'r cyfleoedd i Ogledd Orllewin Cymru, a'r ardaloedd gwledig a sicrhau llais cryf i Ogledd Orllewin Cymru.

## 4. Y MODEL LLYWODRAETHU A FFEFRIR

4.1. Ym mis Mawrth 2017, cymeradwyodd Cabinet Cyngor Gwynedd (ynghyd â'r pum Awdurdod Lleol eraill y Gogledd) y bwriad i sefydlu Cydbwyllgor Statudol.

4.2. Mae'r Cydbwyllgor Statudol yn fodel adnabyddus a dibynadwy. Er hyn mae'n fodel cyfyngedig. Er mwyn cefnogi'r Cydbwyllgor bydd angen enwebu awdurdod lletya i ddarparu cefnogaeth gyfreithiol, ysgrifenyddol a gweinyddol, a bydd angen enwebu un awdurdod neu fwy i fod yn awdurdod lletya ar gyfer Swyddfa Rhaglen fydd yn rheoli'r rhaglenni a phrosiectau i weithredu cais y Fargen Twf. Efallai y bydd hefyd angen i'r Cydbwyllgor a'i adnoddau cefnogol weithredu prosiectau cydweithredol eraill y cytunir arnynt gan y Cynghorau. Nid yw'r awdurdod lletya wedi ei ddewis eto.

4.3. Mae Cydbwyllgorau yn fodel cyfarwydd yn y rhanbarth gyda Chonsortiwm Gwella Ysgolion GwE a Phrosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru yn esiamplau diweddar. Esiampl berthnasol o'r gorffennol yw Taith, yr hen Gonsortiwm Cynllunio Trafnidiaeth.

4.4. Mae amlinelliad o'r cylch gorchwyl arfaethedig, sy'n cael eu datblygu mewn manylder gan rwydwaith Penaethiaid y Gwasanaethau Cyfreithiol gyda chyngor arbenigol ac annibynnol Cyfreithwyr Pinsent, i'w weld yn ***Atodiad 3***.

4.5. Bydd y Cydbwyllgor angen cyfansoddiad, a fydd yn cynnwys cylch gorchwyl o'i weithgareddau, a bydd wedi ei gynnal gan Gytundeb Rhyng-Awdurdod.

4.6. Mae Cytundeb Rhyng-Awdurdod yn gytundeb ar y cyd sy'n gosod:

- Sut fydd y Cydbwyllgor yn cael ei lywodraethu;
- Cyfyngiadau ar allu'r Cydbwyllgor i wneud penderfyniadau ynghyd â materion sydd wedi eu cadw i gynghorau unigol eu cymeradwyo;
- Rôl awdurdod lletya;
- Sut fydd cyfraniadau ariannol i'r Cydbwyllgor ac i'r awdurdod lletya yn cael eu penderfynu;
- Sut fydd peryglon a buddion yn cael eu rhannu.

4.7. Yr aelodaeth ffurfiol, craidd a argymhellir ar gyfer y Cydbwyllgor fydd Arweinydd pob un o'r chwe Chyngor. Byddai gan bob Arweinydd ddirprwy enwebedig, a byddai'r Pwyllgor yn cael ei gynghori gan Brif Weithredwyr ac aelodau proffesiynol arweiniol eraill.

4.8. Mae'r opsiwn yn bodoli i'r Cydbwyllgor benodi cynghorwyr wedi eu cyfethol o gyrff allweddol, megis:

- Cyngor Busnes Gogledd Cymru;
- Addysg Uwch (Prifysgolion Bangor a Wrecsam-Glyndwr); ac
- Addysg Bellach (Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai).

4.9. Byddai cynrychiolwyr y cyrff yn ymuno â'r Pwyllgor mewn modd cynghorol a heb bleidlais.

4.10. Bydd angen i'r model llywodraethu fod yn gyfreithiol, yn weithredol ac yn gredadwy. O ystyried y byddai sectorau busnes, addysg bellach ac addysg uwch yn rhanddeiliaid allweddol mae'n bwysig eu bod yn cael eu gwneud yn rhan o'r aelodaeth o ran ymarferoldeb a hygrededd gydag arianwyr.

4.11. Mae'r model sy'n cael ei awgrymu a'i swyddogaethau yn cyd-fynd â'r model a gynigwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei phapur gwyn ar ddiwygio llywodraeth leol. Felly mae'r model wedi ei ddiogelu rhag deddfwriaeth ddisgwyliedig sydd i ddod o Lywodraeth Cymru.

4.12. Rhagwelir y bydd gweithio'n rhanbarthol yn orfodol mewn meysydd allweddol megis datblygu economaidd, defnydd tir strategol drwy gynllunio a thrafnidiaeth strategol. Yn ei gyhoeddiad diweddar amlinellodd yr Ysgrifennydd Cabinet y gall y meysydd yma gael eu darparu ar lefel Gogledd Cymru yn y dyfodol, gyda lle ar gyfer gweithio'n isranbarthol drwy bwyllgorau gweithredu ar y cyd.

4.13. Bydd perthynas weithio agos gyda Phartneriaeth Menter Leol Sir Gaer a Warrington yn bwysig a bydd cydweithio ar draws y ffin yn cael ei gynnal trwy Gynghrair Merswy Dyfrdwy a chyfryngau eraill sy'n bodoli megis Tasglu Rheilffyrdd Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, sy'n arwain strategaeth Growth Track 360. Yn ychwanegol i Ogledd Orllewin Lloegr bydd angen sefydlu partneriaeth drawsffiniol effeithiol gydag Iwerddon a Chanolbarth Cymru.

4.14. O ystyried pwysigrwydd isadeiledd a gwasanaethau trafnidiaeth i'r strategaeth mae disgwyl i'r Cydbwyllgor ffurfio Is-bwyllgor Trafnidiaeth Arbenigol o'r cychwyn. Aelodau'r Is-bwyllgor hwn fyddai Aelodau Cabinet Trafnidiaeth y chwe Chyngor gyda phartneriaid eraill yn cael gwahoddiad i gynghori yn ôl yr angen.

4.15. Bydd angen newid rôl ranbarthol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gyd-fynd â'r newidiadau yn y trefniadau llywodraethu. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn gefnogol o'r newidiadau ac mae'n hollol gefnogol i gais y Fargen Twf. Mae yno hefyd awydd cryf i gadw brand Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sydd wedi arwain y rhan fwyaf o'r gwaith datblygu economaidd rhanbarthol.

4.16. Mae gwaith ar gyfansoddiad diwygiedig a chylch gorchwyl ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn cael ei wneud fel rhan o'r gwaith a ddisgrifiwyd uchod.

4.17. Gallai'r Bwrdd Uchelgais Diwygiedig arwain ar y meysydd a ganlyn:

- Asesiadau rhanbarthol o anghenion a chyfleoedd er mwyn llywio'r strategaeth;

- Datblygu syniadau prosiect i gael eu hystyried; ac
- Adolygiad traws sector ac asesiad o gynnydd ac effaith ar gyfnodau allweddol o weithredu'r strategaeth.

4.18. Cynigir y byddai'r Bartneriaeth Sgiliau a Dysgu Rhanbarthol bresennol hefyd yn dod o dan arweiniad strategol y Cydbwyllgor yn y model llywodraethu arfaethedig.

## 5. GOBLYGIADAU ADNODDAU

5.1. Nid oes goblygiadau adnoddau uniongyrchol yn y cam hwn heblaw am wneud cyfraniad ariannol blynyddol o £50 mil o gyllidebau 2017/18. Bydd yna gostau cyllidol ychwanegol ar gyfer gwasanaethu Cydbwyllgor, a chostau mwy sylweddol ar gyfer rheoli'r rhaglen a'r prosiect o fis Ebrill 2018.

5.2. Bydd hefyd angen ystyried trefniadau staffio ar gyfer Swyddfa Rhaglen. Mae'n bosibilrwydd i swyddogion gael secondiad i ymgymryd â materion a gweithgareddau penodol ar y cais.

5.3. Fel rhan o'r Fargen Twf bydd gofyn i Lywodraeth y DU ad-dalu cyfran gychwynnol y cyllid a fenthycwyd ar gyfer cynigon a gymeradwywyd. Hyd yn hyn mae'r mwyafrif o gytundebau wedi ymwneud â Chymeradwyaeth Benthyg y Trysorlys a pheth datganoli o gyllid buddsoddi Llywodraeth y DU sy'n bodoli i gael ei integreiddio gyda chyllid lleol sy'n bodoli ar gyfer cael gwerth gwell i raglenni integredig. Yng Nghymru mae gwariant lleol yn cynnwys buddsoddiad cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglenni penodol.

5.4. Byddai dirprwyo cyfran o dwf cyfraddau busnes i awdurdodau lleol yn darparu ffynhonnell buddsoddiad.

5.5. Mae ceisiadau'r Fargen Twf mewn mannau eraill gan gynnwys Partneriaeth Bae Abertawe, sydd yn gymhariaeth ddefnyddiol, yn gosod cynsail ar gyfer cyllido.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 6.1. Barn y Swyddogion Statudol:

#### i. Y Swyddog Monitro:

"Mae'r Cabinet eisoes wedi cefnogi'r egwyddor o fodel cydbwyllgor o'r chwe Chyngor ar gyfer llywodraethu. Mae maint, ystod o fudd-ddeiliaid, risgiau a natur esblygol y prosiect yn golygu fod angen gwaith manwl a gofalus ar ddatblygu'r model llywodraethu i sicrhau balans priodol rhwng symud y prosiect ymlaen yn effeithiol ar yr un llaw ac ar y llaw arall rhoi sicrwydd a hyder i'r partneriaid ynglŷn â'u llais a'u dylanwad ar gyfeiriad a chyfraniadau at y prosiectau. Mae hyn yn cynnwys adnabod a sicrhau asiad priodol gyda materion fydd yn parhau yn gyfrifoldeb penderfynu'r Cynghorau unigol.

Un elfen, er canolog o'r darlun llywodraethu yw'r cyd bwyllgor a chrybwyllir hyn yn yr adroddiad. Bydd angen am waith manwl nid yn unig ynglŷn â'r gyfundrefn penderfynu lefel uchel ond hefyd sefydlu'r drefn rheoli a chytundebol rhwng y cynghorau yn y cytundeb partneriaeth fydd yn cael ei baratoi."

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

“Rwy’n cefnogi’r argymhelliad i’r Cabinet gymeradwyo’r model llywodraethu o Gydbwyllgor ar gyfer y cais ‘Bargen Twf’ rhanbarthol, ac hefyd i gymeradwyo’r cyfraniad ariannol cychwynnol o hyd at £50,000 i’w wario yn 2017/18 ar baratoi’r cais.

Byddai cyfleoedd gwerthfawr i ranbarth Gogledd Cymru gyda ‘Bargen Twf’, ynghyd â risgiau ariannol posibl i’r awdurdodau lleol perthnasol. Felly, bwriadaf gefnogi a chynghori’r Arweinydd a’r Cyfarwyddwr Corfforaethol wrth i’r agenda arloesol yma symud ymlaen, gyda golwg ar uchafu’r buddion i bobl Gwynedd.

Cadarnhaf gellid ariannu’r £50,000 (crybwyllir ym mhenderfyniad ‘d’ yn rhan 2 o’r adroddiad) o adnoddau cyfredol sydd eisoes yng nghyllideb / cronfeydd Adran y Prif Weithredwr.”

**6.2. Barn yr Aelod Lleol:**

6.2.1 Ddim yn fater lleol.

**6.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

6.3.1 Dim i’w nodi.

---

**Atodiadau:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Gweledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru |
| **Atodiad 2** | Manylion Amlinellol y Cais Cytundeb Twf |
| **Atodiad 3** | Amlinelliad o’r Cylch Gorchwyl Arfaethedig |

**Dogfennau Cefndirol:**

Dim.